## P-05-1113 Cyflwyno mesurau diogelwch ar y ffyrdd ar yr A44 yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Daniel Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 242 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Mae'r A44 yn gefnffordd bwysig i gerbydau sy'n teithio i gyfeiriad Aberystwyth. Mae'r ffordd yn mynd heibio i'r ystâd ddiwydiannol, o dan y rheilffordd ac yn mynd drwy bentref poblog Llanbadarn Fawr ac mae'n aml yn brysur wrth i gerddwyr, beicwyr a thraffig trwm deithio arni. Yn aml iawn, rhaid i gerddwyr redeg o dan bont y rheilffordd gan nad oes llwybr troed a chroesi'r A44 ar gornel ddall ym Mwllhobi, sy'n rhan o'r pentref. Rydym wedi anfon sylwadau at Lywodraeth Cymru ond nid yw wedi cymryd unrhyw gamau eto.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:

Rydym yn galw am fesurau diogelwch gwell ar gefnffordd yr A44 yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion, sef:

- terfyn cyflymder o 20mya,
- croesfan i gerddwyr ym Mhwllhobi
- twnnel ar gyfer llwybr troed o dan y rheilffordd.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru